

Canllaw ar Labelu Cig Eidion

**I unigolion / sefydliadau sy'n gwerthu cig eidion
yng Nghymru**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Chwefror 2011

Canllaw ar Labelu Cig Eidion

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ar y cynlluniau canlynol:

- Cynllun Gorfodol ar gyfer Labelu Cig Eidion
- Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion.

Dylai busnesau yng Nghymru sydd angen cyngor gysylltu â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

Tîm Polisi Bwyd
Llywodraeth Cymru
2^{il} Lawr, Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2000

E-bost: FoodPolicy@Wales.GSI.Gov.UK

Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan y Llywodraeth: www.cymru.gov.uk

Cynnwys

Adran 1

Gwybodaeth gyffredinol

- 1.1 Beth yw'r system labelu cig eidion (a chig llo)?
- 1.2 Beth yw'r rheolau labelu cig eidion?
- 1.3 A yw'r rheolau labelu cig eidion yn berthnasol i chi/eich busnes?
- 1.4 Pa fath o gig eidion sy'n gorfod cydymffurfio â'r rheolau labelu?
- 1.5 Beth yw labelu?
- 1.6 Sut dylid labelu cig eidion sydd wedi'i lapio'n barod?
- 1.7 Sut dylid labelu cig eidion sydd heb ei lapio'n barod?
- 1.8 Beth yw system olrhain?
- 1.9 Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn dilyn y rheolau hyn?

Adran 2

Labelu gorfodol

- 2.1 Pa wybodaeth y mae'n orfodol ei dangos wrth labelu?
- 2.2 Beth yw'r rheolau labelu ar gyfer cig wedi'i dorri sydd wedi ei ragbecynnu?
- 2.3 Beth yw'r rheolau ar gyfer labelu cig wedi'i dorri sydd heb ei ragbecynnu?
- 2.4 Pa wybodaeth orfodol sy'n rhaid ei dangos ar labeli briwgig eidion?
- 2.5 Pa wybodaeth orfodol sy'n rhaid ei dangos ar labeli tocion?
- 2.6 Sut dylech chi labelu cig eidion sydd wedi'i fewnforio o wlad nad yw'n rhan o'r CE pan nad yw'r holl wybodaeth orfodol ar gyfer y label ar gael?
- 2.7 Sut mae'r rheolau gorfodol yn berthnasol i 'Cig Eidion Cymreig', 'Cig eidion o'r Alban' a 'Cig Eidion Ynysoedd Erch'?
- 2.8 What is the criterion for PGIs and PDOs?

Adran 3

Rheolau labelu ar gyfer marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau

- 3.1 Sut dylech chi ddsbarthu cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau i gategoriâu?
- 3.2 Pa labeli / disgrifiadau gwerthu y dylid eu cynnwys?
- 3.3 A allaf gymysgu batshys o offal o anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau?
- 3.4 A ellir cymysgu cig anifeiliaid buchol hyd at 8 mis oed a chig anifeiliaid buchol 8-12 mis oed?
- 3.5 A allaf ychwanegu gwybodaeth at fy labeli?
- 3.6 A allaf ddefnyddio'r term cig llo rosé?
- 3.7 Defnyddio dau ddisgrifiad neu fwy.
- 3.8 Beth yw'r goblygiadau cofnodi ar gyfer gweithredwyr?

Adran 4

Honiadau eraill o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion

- 4.1 Beth yw'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion?
- 4.2 Pa wybodaeth sydd angen ei chymeradwyo?
- 4.3 Pa wybodaeth nad oes angen ei chymeradwyo?
- 4.4 Pa reolau mae'n rhaid i chi eu dilyn o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion?
- 4.5 Sut ydych yn cyflwyno cais i'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion?
- 4.6 Pryd y dylwn drefnu arolygiad?
- 4.7 Sut bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei defnyddio?

Adran 5

Cynnwys gwybodaeth nad yw'n orfodol ar labeli cig eidion sy'n cael ei fewnforio a'i allforio

- 5.1 A ydych am werthu cig eidion wedi'i fewnforio o Aelod-Wladwriaethau eraill sy'n rhan o'r Gymuned Ewropeaidd (CE) a rhoi gwybodaeth ar y labeli sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol?
- 5.2 A ydych am werthu cig eidion wedi'i fewnforio o wlad y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd (CE) a rhoi gwybodaeth ar y labeli sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol?
- 5.3 A ydych am allforio cig eidion i wledydd eraill yn y Gymuned Ewropeaidd (CE) a rhoi gwybodaeth ar y labeli sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol?

Adran 6

Gorfodi

- | | |
|------------|--|
| Atodiad 1: | Enghreifftiau o labeli sy'n cynnwys gwybodaeth orfodol |
| Atodiad 2: | Enghreifftiau o arddangosiad o labeli gorfodol ar gyfer cig eidion heb ei ragbecynnu (a labeli gwag) |
| Atodiad 3: | Enghreifftiau o labeli ar gyfer marchnata cig eidion anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau |
| Atodiad 4: | Gwybodaeth i gwsmeriaid am labelu cig eidion |
| Atodiad 5: | Diffiniad o dermau |
| Atodiad 6: | Deddfwriaeth |

Adran 1

Gwybodaeth gyffredinol

1.1 Beth yw'r system labelu cig eidion (a chig llo)?

System sydd ar waith ledled y Gymuned Ewropeaidd (CE) yw'r system labelu cig eidion a'i nod yw rhoi gwybodaeth glir a dibynadwy i brynwyr am y cig eidion (gan gynnwys cig llo) sydd ar werth. Un o ofynion allweddol y system yw y dylai bod modd olrhain y cig eidion sydd ar werth i'w darddiad. Hwyrach y bydd manwerthwyr am gopio'r wybodaeth yn Atodiad 4 a'i dosbarthu i gwsmeriaid fel eu bod yn gwybod am y system olrhain sydd ar waith ar gyfer cig eidion. Nid oes rheidrwydd arddangos y wybodaeth hon. Rhestrir y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r system yn Atodiad 6.

1.2 Beth yw'r rheolau labelu cig eidion?

Mae yna reolau gorfodol ar labelu cig eidion a chig llo ffres neu wedi'i rewi (a briwgig eidion a llo). Mae'n rhaid cynnwys rhai darnau o wybodaeth *orfodol* ar labeli'r holl gig eidion a werthir yn y CE. Mae'r system labelu cig eidion yn yn berthnasol i bob gwerthiant yn y gadwyn gyflenwi ac mae iddi ddwy ran: (i) Labelu Cig Eidion Gorfodol a (ii) Labelu Cig Eidion Cymeradwy.

- (i) Mae'r **Cynllun Gorfodol ar gyfer Labelu Cig Eidion** yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi gynnwys gwybodaeth benodol (gweler Adran 2 am fanylion llawn y wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys ar y label) wrth labelu'ch cig eidion. Gan ei bod hi'n orfodol darparu'r wybodaeth hon, nid oes angen i chi wneud cais i Lywodraeth ei chymeradwyo.
- (ii) Bydd rhaid i unrhyw honiadau eraill rydych am eu gwneud ar y label am y tarddiad rhanbarthol/lleol, nodweddion neu ddulliau cynhyrchu'r cig eidion a werthwch gael eu cymeradwyo dan y **Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion** (gweler Adran 4 am ofynion labelu cymeradwy).

1.3 A yw'r rheolau labelu cig eidion yn berthnasol i chi/eich busnes?

- I. Ydynt, os ydych chi'n gwerthu/cyflenwi cig eidion neu gig llo ffres neu wedi'i rewi yn unrhyw ran o'r gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, lladd-dai, ffatrioedd torri, storfeydd oer, canolfannau ailbecynnu, siopau cigydd, siopau symudol, stondinau marchnad neu siopau fferm. Mae cyflenwyr gwestai, tai bwyta a chyfleusterau arlwygo eraill wedi'u cynnwys hefyd.
- II. Nac ydynt, os ydych chi'n gwerthu cig wedi'i goginio. Er enghraifft, gwestai, tai bwyta, busnesau bwyd cyflym, caffis neu ffreturau. Gall pobl

sy'n cael cig eidion o fusnesau arlwyo ddisgwyl gallu cael gwybodaeth sy'n cyfateb i'r wybodaeth a roddir ar labeli cig eidion ffres/wedi'i rewi os ydynt yn gofyn amdani, yn enwedig os gwneir honiadau (e.e. ar fwydlenni tai bwyta) am natur y cig eidion ar werth.

1.4 Pa fath o gig eidion sy'n gorfod cydymffurfio â'r rheolau labelu?

Cig eidion (yn cynnwys cig llo) ffres ac wedi'i rewi, er enghraifft, carcass cyfan, chwarthorion, darnau o gig ffres neu wedi'u rhewi gyda/heb yr asgwrn, yn cynnwys golwythion, stêc a chig wedi'i ddeisio. Mae hyn yn cynnwys briwggig (sy'n cynnwys llai na 1 y cant o halen) a byrgyrs cig eidion heb eu coginio nad ydynt yn cynnwys cynhwysion ychwanegol (er enghraifft, protein soia, grawnfwyd i lynu'r cymysgedd at ei gilydd). Nid yw cig heb ei goginio sydd â sesnin wedi'i ychwanegu naill ai yn y cig neu dros y cyfan o wyneb y cynnyrch, a bod y sesnin hwnnw naill ai i'w weld neu'n gwbl amlwg ym mlas y cynnyrch, wedi'i gynnwys. Nid yw'r system Labelu Cig Eidion yn berthnasol i gig eidion a chig llo mewn cynhyrchion wedi'u prosesu ac offal, er enghraifft, pasteiod stêc a 'lwlod neu fyrgyrs cig eidion wedi'u prosesu. Nid oes angen labelu cynhyrchion o'r fath dan y Cynllun Gorfodol ar gyfer Labelu Cig Eidion, ac nid oes angen cymeradwyo eu labeli dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion. Mae cig eidion ffres neu wedi'i rewi yn cynnwys pob cynnyrch sy'n dod o dan godau 0201, 0202, 0206 10 95 a 0206 29 91 Cyfundrefn Enwi Tollau. Cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a roddir yn y llyfryn hwn os nad ydych chi'n siŵr.

1.5 Beth yw labelu?

Mae labelu'n golygu rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i gwsmeriaid yn y man gwerthu. Mae'n cynnwys y wybodaeth a roddir ar y deunydd pecynnu ac ar labeli ger y cynnyrch. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth a roddir yn y man gwerthu mewn hysbysebion, posteri, cyhoeddiadau a thafleini sy'n cyd-fynd â'r cynnyrch. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth a roddir ar lafar, er ei bod hi'n drosedd camarwain defnyddwyr o dan ddeddfwriaeth arall. Mae'n bosibl y bydd angen cymeradwyo gwybodaeth a roddir trwy luniau neu symbolau. Cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a roddir yn y llyfryn hwn os nad ydych chi'n siŵr.

1.6 Sut dylid labelu cig eidion sydd wedi'i lapio'n barod?

Rhaid labelu cig eidion sydd wedi'i lapio'n barod ar y pecyn. Os yw pecynnau'n cael eu gwerthu gyda'i gilydd mewn carton, gellir dangos y wybodaeth ofynnol ar y carton ac nid ar y pecynnau unigol. Fodd bynnag, os yw'r pecynnau'n cael eu gwerthu heb y gorchudd allanol, rhaid rhoi'r wybodaeth ofynnol arnynt cyn eu gwerthu.

1.7 Sut dylid labelu cig eidion sydd heb ei lapio'n barod?

Yn achos cig eidion heb ei lapio'n barod sy'n cael ei werthu i'r cwsmer terfynol, rhaid rhoi'r wybodaeth ar y cig neu ei harddangos yn y siop, e.e. ar docyn sy'n agos at y cig neu ar arwydd ar y wal y gall eich cwsmeriaid ei weld (rhoddir enghreifftiau a labeli gwag yn Atodiad 2). Rhaid i chi drefnu'r arddangosfa fel bod modd gwahaniaethu rhwng y darnau gwahanol o gig yn y siop er mwyn i'r cwsmer allu gweld pa wybodaeth sy'n berthnasol i ba gig. Rhaid i'r cyfeirnodau neu god(au) sicrhau bod modd olrhain y cig i'w darddiad drwy'ch system olrhain.

1.8 Beth yw system olrhain?

System bapur neu gyfrifiadurol yw hon a gedwir gan eich busnes a fydd yn cysylltu'r anifeiliaid, neu'r cig eidion a brynwch, â chyfeirnod neu god olrhain y cig eidion a werthwch. Rhaid i bob gweithredwr yn y gadwyn fwyd gael system olrhain fel bod modd olrhain y cig eidion sydd ar werth i gwsmeriaid i'r anifail neu grŵp o anifeiliaid y mae'n deillio ohono ac i brofi bod y wybodaeth a roddir ar labeli i gwsmeriaid ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn gywir.

Rhaid i chi gael system olrhain. Bydd yr union fath o wybodaeth y dylai ei chynnwys yn dibynnu ar natur eich busnes. Dylai gofnodi pryd mae pob anifail, carcass, rhan o garcas, prif ddarn neu ddarn arall o gig yn cyrraedd a gadael eich busnes. Yn dibynnu ar natur eich busnes, gallech gofnodi rhai neu bob un o'r canlynol:

- Dyddiad derbyn (yr anifail, carcass neu ddarn o gig);
- Y cyflenwr;
- Nodyn dosbarthu;
- Dyddiad a rhif lladd;
- Pwysau;
- Rhif neu gyfeirnod tag clust /pasbort gwartheg y DU;
- Cynnyrch (darn);
- Rhif neu liw y bocs; a
- Dyddiad rhoi'r cig ar y cownter.

Yn ogystal â'r uchod, mae Rheoliad (EC) Rhif 566/2008 y Comisiwn yn nodi rheolau labelu ar gyfer pob anifail buchol 12 oes mis oed neu iau, fel a ganlyn; (gweler Adran 3).

- Llythyren adnabod categori V neu Z (anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau); a
- Dyddiad geni'r anifail.

I'w cysylltu â'r:

- Cyfeirnod neu god;
- Y wybodaeth orfodol ar labeli am ladd-dai a ffatrioedd torri; ac
- Unrhyw honiadau cymeradwy a wneir ar labeli wrth werthu'r cynnyrch.

1.9 Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn dilyn y rheolau hyn?

Bydd swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi gan Defra a'r Llywodraeth, sy'n cynnwys arolygwyr yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, Swyddogion Safonau Masnach a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, yn cynnal archwiliadau i sicrhau bod rheolau'r Cynllun Gorfodol ar gyfer Labelu Cig Eidion a'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion yn cael eu dilyn. Bydd hyn yn cynnwys archwilio gweithredwyr sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion (i sicrhau eu bod yn parhau i labelu yn unol â'r hyn a gymeradwywyd) ac archwilwyr nad ydynt wedi eu cymeradwyo (i sicrhau nad ydynt yn rhoi unrhyw wybodaeth sydd angen ei chymeradwyo i'w cwsmeriaid). Rhaid i chi adael i'r swyddogion ddod i safle'ch busnes a gweld eich cofnodion. Rhaid i weithredwyr sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion allu dangos i'r swyddogion dystysgrif sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth y cynnyrch a gyhoeddwyd gan ddilyswr a gydnabyddir gan y Llywodraeth o ganlyniad i archwiliad blaenorol, a'r dystysgrif gymeradwyo a gyflwynwyd gan Lywodraeth.

Peidiwch â rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol. Oni bai bod gennych le i amau nad yw'n gywir, gallwch gymryd bod y wybodaeth a roddir i chi o dan y system labelu cig eidion wrth i chi brynu cig eidion gan eich cyflenwyr yn gywir. Os na fyddwch yn dilyn y rheolau, bydd rhaid i chi dynnu'ch cig eidion oddi ar y farchnad nes eich bod chi wedi ail-labelu'r cig eidion neu gig llo yn unol â'r rheolau. Os nad oes modd ail-labelu'r cig eidion i'r safon ofynnol, oherwydd nad oes digon o wybodaeth i'w olrhain, efallai y cewch ei werthu'n uniongyrchol i gael ei brosesu i wneud cynhyrchion eraill. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd gymryd camau eraill i unioni'r ffaith i chi dorri'r rheolau. Gallai achos difrifol o dorri rheolau fod yn drosedd, ac os cewch eich dyfarnu'n euog, bydd rhaid i chi dalu dirwy.

Adran 2

Labelu gorfodol

Mae'r adran hon yn esbonio'r wybodaeth orfodol y mae'n rhaid i chi ei dangos wrth labelu cig eidion ffres ac wedi'i rewi. Mae rheolau arbennig ar gyfer briwgig eidion a chig eidion o wledydd nad ydynt yn rhan o'r CE (trydydd gwledydd). Mae esboniad o'r rhain ym mharagraffau 2.4 a 2.6 yn ôl eu trefn.

2.1 Pa wybodaeth y mae'n orfodol ei dangos wrth labelu?

Rhaid dangos y dynodiadau canlynol ar eich labeli:

- (1) Cyfeirnod neu god;
- (2) Enw'r Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle ganwyd yr anifail neu grŵp o anifeiliaid;
- (3) Enw'r Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle magwyd yr anifail neu grŵp o anifeiliaid;
- (4) 'Lladdwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]';
- (5) Rhif trwydded y lladd-dy
- (6) 'Torri/torwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]';
- (7) Rhif(au) trwydded y ffatri (ffatrioedd) torri

Nodwch nad oes rhaid dangos (5) a (7) bellach wrth fanwerthu cig eidion yn rhydd (heb ei ragbecynnu), er enghraifft, ar gownteri â gwasanaeth (gweler paragraff 2.3).

(1) Cyfeirnod neu god

Cyfeirnod neu god olrhain sy'n sicrhau cysylltiad rhwng y cig a'r anifail neu grŵp o anifeiliaid y mae'n deillio ohono.

Ar gyfer lladd-dy – mae'n bosibl mai'r cyfeirnod neu god yw'r rhif adnabod neu unrhyw rif neu god arall sy'n berthnasol i'r anifail dan sylw, neu i grŵp o anifeiliaid, carcasau neu chwarthorion. Dylai bod modd adnabod carcasau unigol yn ôl y rhif lladd. Lle mae batsh o garcasau yn cael ei greu mewn lladd-dy, rhaid i ddull adnabod yr anifail unigol aros gyda'r carcas. Os nad yw'r rhif lladd i'w weld ar unrhyw ddarnau, rhaid i'r cofnodion batsh/torri ddangos y rhifau lladd perthnasol a dull adnabod newydd y batsh ar y labeli.

Ar gyfer ffatri dorri - mae'n bosibl mai'r cyfeirnod neu god yw'r rhif adnabod neu unrhyw rif neu god arall sy'n berthnasol i'r anifail y mae'r darn o gig yn deillio ohono. Fodd bynnag, gallai fod yn rhif batsh neu swp. At y diben hwn, gall batsh gynnwys gwerth un diwrnod o gynnyrch ffatri dorri ar y mwyaf (gweler '**Diffiniad**

o faint a chyfansoddiad grŵp o anifeiliaid' isod). Ni all batsh sy'n cael ei greu mewn ffatri dorri ond gynnwys cig eidion sydd wedi'i ladd yn yr un lladd-dy ac, os yw'n berthnasol, sydd wedi'i dorri'n flaenorol yn yr un ffatri neu ffatrioedd torri. Os ydych chi'n torri cig o nifer o wahanol ladd-dai, rhaid rhoi cyfeirnod gwahanol i'r cig eidion o bob lladd-dy unigol. Er hynny, gallwch gynnwys cig eidion a laddwyd yn yr un lladd-dy ond ar ddiwrnodau gwahanol yn yr un batsh. (Gweler '**Rheol batshys wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri'** isod).

Ar gyfer y busnes manwerthu neu gyfanwerthwr - gellir defnyddio unrhyw gyfeirnod neu god sy'n ei gwneud hi'n bosibl olrhain y cig ar eich safle ar yr amod bod cysylltiad trwy'ch cofrestr a dogfennau â chyfeirnod neu god eich cyflenwr. Gallai fod yn rhif batsh.

(2) Gwlad tarddiad (geni) a (3) Gwlad tarddiad (magu)

Dangos yr Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle ganwyd yr anifail neu grŵp o anifeiliaid. Bydd y wybodaeth yn dweud 'born in' (ganwyd yn) ac yn rhoi enw'r wlad. Rhaid iddi fod yn un Aelod-wladwriaeth neu'n un wlad nad yw'n rhan o'r CE. Rhaid gofalu bod cig eidion a fewnforir i'r DU wedi'i labelu'n briodol â'r wlad tarddiad gywir. Nid yw enw rhanbarthol sydd wedi'i gymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion, er enghraifft, 'Ceredigion' neu 'Cymru', yn gwneud y tro. Ni ellir rhoi cig o anifeiliaid a anwyd mewn gwahanol wledydd yn yr un batsh.

Dangos enwau'r holl Aelod-wladwriaethau neu wledydd nad ydynt yn rhan o'r CE lle bu'r anifail neu bob un o'r anifeiliaid yn y grŵp yn byw rhwng eu geni a'u lladd. Bydd y wybodaeth yn dweud 'reared in' neu 'raised in' (magwyd yn) ac yn rhoi enw'r wlad neu wledydd dan sylw. Dim ond gwartheg a fagwyd yn yr un wlad/gwledydd y gellir eu cynnwys mewn batsh. Os i'r anifail neu anifeiliaid dreulio llai na 30 diwrnod yn union ar ôl eu geni yn eu gwlad enedigol, nid oes rhaid i chi gynnwys y wlad honno ar y label fel gwlad lle magwyd yr anifail neu anifeiliaid. Hefyd, os treuliodd yr anifail lai na 30 diwrnod yn union cyn ei ladd yn y wlad lle cafodd ei ladd, nid oes rhaid i chi gynnwys y wlad honno ar y label fel gwlad lle magwyd yr anifail.

Os yw'ch cig eidion yn dod o anifeiliaid a gafodd eu geni, eu magu a'u lladd yn yr un Aelod-wladwriaeth neu'r un wlad nad yw'n rhan o'r CE, yn hytrach na chynnwys y wybodaeth ddwywaith yn (2) ar gyfer geni a (3) ar gyfer magu, gallwch roi 'Tarddiad: [enw Aelod-wladwriaeth] neu [gwlad nad yw'n rhan o'r CE], ynghyd â gwybodaeth (1) a (4) i (7). Er enghraifft, cig eidion Prydeinig:

- Tarddiad: Y DU;
- Lladdwyd yn y DU (rhif cymeradwyo);
- Torrwyd yn y DU (rhif cymeradwyo); a
- Chyfeirnod neu god.

Ni ellir labelu unrhyw wartheg a fewnforiwyd a gafodd eu lladd yn y DU gyda Tarddiad (*Origin*). Er enghraifft, dylid labelu cig eidion a fewnforiwyd o Iwerddon fel hyn:

- Ganwyd yn IE;
- Magwyd yn IE/Y DU;
- Lladdwyd yn y DU (a rhif y ffatri).

Dylai gweithredwyr sicrhau nad yw carcasau'r gwartheg hyn yn cael eu diesgyrnu a'u rhoi mewn batsh gyda chig eidion sy'n tarddu o'r DU. Mae hyn hefyd yn cynnwys anifeiliaid a fewnforiwyd o du hwnt i'r UE, ac o dan Reoliadau Adnabod Gwartheg 2007, mae'n rhaid ail-dagio'r gwartheg hyn a rhoi pasbort a thag clust y DU iddynt. Cyfrifoldeb y gweithredwr yw sicrhau bod y rhain yn cael eu nodi mewn cofnodion priodol a'u labelu'n briodol.

(4) Gwlad lladd

Dangos yr Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle mae'r lladd-dy. Rhaid i'ch labeli gynnwys y geiriau: 'Lladdwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]' (*'Slaughtered in: [name of Member State or non-EC country]'*). Rhaid iddi fod yn un Aelod-wladwriaeth neu un wlad nad yw'n rhan o'r CE, er enghraifft, 'Lladdwyd yn: Y DU'. Nid yw enw rhanbarthol sydd wedi'i gymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion, er enghraifft, 'Ceredigion' neu 'Cymru', yn gwneud y tro.

(5) Rhif trwydded y lladd-dy

Rhif trwydded y lladd-dy lle lladdwyd yr anifail neu grŵp o anifeiliaid. Rhif cymeradwyo milfeddygol sydd wedi'i glustnodi i'r busnes neu safle ac sy'n ymddangos ar y stamp nod iechyd yw hwn. Dim ond un rhif lladd-dy ddylai fod ar y label cig eidion ac i sicrhau bod modd ei olrhain, rhaid i'r holl gig eidion sy'n cael ei werthu gyda'i gilydd mewn pecyn neu batsh ddod o un lladd-dy yn unig. Rhaid rhoi rhifau'r ffatri ger y geiriau perthnasol. (Ar gyfer cig wedi'i dorri sydd wedi'i ragbecynnu, trowch at baragraff 11). Ni ellir cyfuno cig eidion o ddau ladd-dy neu fwy i greu pecyn neu batsh. (Ar gyfer rhoi cig wedi'i dorri mewn batshys, gweler 'Rheol batshys wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri' isod).

(6) Gwlad torri

Dangos yr Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle mae'r ffatri dorri. Rhaid i'ch label gynnwys y geiriau: 'Torri yn: neu Torrwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]' (*'Cutting in: or Cut in: [name of Member State or non-EC country]'*). Rhaid iddi fod yn un Aelod-wladwriaeth neu'n un wlad nad yw'n rhan o'r CE. Nid yw enw rhanbarthol sydd wedi'i

gymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion, er enghraifft, 'Ceredigion' neu 'Cymru', yn gwneud y tro.

(7) Rhif trwydded y ffatri dorri

Rhif trwydded y ffatri dorri lle cafodd y cig eidion ei dorri (a/neu ei ddiesgyrnu). Rhif cymeradwyo milfeddygol sydd wedi'i glustnodi i'r busnes neu safle ac sy'n ymddangos ar y stamp nod iechyd yw hwn. At ddibenion olrhain, os caiff batsh o gig eidion ei brosesu trwy fwy nag un ffatri dorri, rhaid i'ch labeli ddangos rhifau trwydded yr holl ffatrioedd torri lle proseswyd y cig. Rhaid rhoi rhifau'r ffatrioedd ger y geiriau perthnasol. (Ar gyfer cig wedi'i dorri sydd wedi'i ragbecynnu, trowch at baragraff 2.2). Peidiwch â chymysgu cig eidion nad yw wedi'i ladd yn yr un lladd-dy neu'i dorri yn yr un ffatri dorri neu gyfres o ffatrioedd torri i greu pecyn neu batsh. (I gael gwybodaeth am roi cig wedi'i dorri mewn batshys, darllenwch **'Rheol batshys wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri'** isod). Os yw cig yn cael ei dorri ar safleoedd didrwydded, er enghraifft, siopau cigydd, siopau fferm neu siopau eraill, rhaid rhoi cyfeiriad y safle yn lle rhif trwydded. Ond os yw'r cig eidion yn cael ei dorri a'i werthu ar yr un safle, gellir rhoi "ar y safle hwn" (*"on these premises"*). Os yw lladd-dy yn torri'r cig hefyd, dylid defnyddio rhif trwydded y lladd-dy os nad oes ganddo rif ffatri torri. (Gweler **'Rheol batshys wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri'** isod).

(7.i) Diffiniad o faint a chyfansoddiad 'grŵp' o anifeiliaid

Diffinnir maint y grŵp fel a ganlyn:

- Wrth dorri carcassau neu chwarthorion, diffinnir maint y grŵp yn ôl nifer y carcassau neu chwarthorion sy'n cael eu torri gyda'i gilydd ac yn creu un batsh ar gyfer y ffatri dorri dan sylw; ac
- Yn ystod gwaith torri neu friwio pellach, diffinnir maint y grŵp yn ôl nifer y carcassau neu chwarthorion y mae eu cig yn cyfrif fel un batsh ar gyfer y ffatri dorri neu friwio dan sylw.

Mewn unrhyw achos, ni all maint y grŵp fod yn fwy na'r hyn a gynhyrchir mewn un diwrnod.

Wrth greu'r batshys y cyfeirir atynt yn **'Diffiniad o faint a chyfansoddiad grŵp o anifeiliaid'** uchod, rhaid i weithredwyr sicrhau'r canlynol:

- Ar ôl torri carcassau neu chwarthorion, fod pob carcass neu chwarthor yn y batsh yn dod o anifeiliaid a gafodd eu geni yn yr un wlad, eu magi yn yr un wlad neu wledydd a'u lladd yn yr un wlad a'r un lladd-dy.
- Yn ystod gwaith torri pellach, bod pob carcass neu chwarthor yn y batsh yn dod o anifeiliaid a gafodd eu geni yn yr un wlad, eu magi yn yr un wlad neu wledydd a'u lladd yn yr un wlad a'r un lladd-dy. Rhaid i bob carcass fod wedi'i dorri yn yr un ffatri dorri.
- Ar ôl briwio, rhaid i'r cigoedd yn y batsh ddod o anifeiliaid a gafodd eu lladd yn yr un wlad.

(7.ii) Rheol batshys wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri

Fel rhanddirymiad o'r rheolau ar gael un lladd-dy ac un ffatri dorri ar gyfer carcasau yn **'Diffiniad o faint a chyfansoddiad grŵp o anifeiliaid'** uchod wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri, gall gweithredwyr ddefnyddio cig sy'n deillio o anifeiliaid a laddwyd mewn hyd at dri lladd-dy gwahanol ac o garcasau a dorwyd mewn hyd at dair ffatri dorri wahanol i greu batshys. Fodd bynnag, diffinnir cig wedi'i dorri fel cig sydd wedi'i dorri'n giwbiau mân, sleisiau neu ddogneau unigol eraill nad oes angen i'r gweithredwr ei dorri eto cyn i'r defnyddiwr terfynol ei brynu ac y gall y defnyddiwr hwnnw ei ddefnyddio'n uniongyrchol. Felly, rhaid i batsh o gig wedi'i dorri o dri lladd-dy gwahanol/tair ffatri dorri wahanol fynd i becynnau manwerthu ar unwaith.

(7.iii) Rheol batshys wrth gynhyrchu tocion

(fel y'u diffinnir yn Atodiad 5)

O dan y rheol ganlynol, rhaid trin tocion yn yr un modd â briwgig wrth greu batshys. Fel rhanddirymiad i'r **'Diffiniad o faint a chyfansoddiad grŵp o anifeiliaid'** uchod wrth gynhyrchu tocion, yr unig reol y mae'n rhaid i weithredwyr ei dilyn wrth greu batshys yw'r rheol bod yr anifeiliaid wedi'u lladd yn yr un wlad.

2.2 Beth yw'r rheolau labelu ar gyfer cig wedi'i dorri sydd wedi ei ragbecynnu?

(fel y'i diffinnir yn Atodiad 5)

Fel rhanddirymiad i Erthygl 13(2)(b) (dangos rhif trwydded y lladd-dy) ac (c) (dangos rhif trwydded y ffatri dorri), Rheoliad 1760/2000, os yw gweithredwyr am fynd ati i ddefnyddio cig sy'n dod o hyd at dri lladd-dy gwahanol a hyd at dair ffatri dorri wahanol ar gyfer gwaith torri pellach, dylent restru'r wybodaeth ganlynol ar labeli cig a dorwyd sydd wedi ei ragbecynnu yn ogystal â'r wybodaeth a restrir yn Erthygl 13(5)(a) (am wledydd geni, magu a lladd):

- Gwlad lladd a rhif trwydded y lladd-dy, neu lle bo angen, rhif(au) trwydded y ddau neu dri lladd-dy lle lladdwyd yr anifeiliaid yn y grŵp. Rhaid dangos y wybodaeth fel a ganlyn: 'Lladdwyd yr anifeiliaid yn y grŵp yn [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle cawsant eu lladd]' a rhif(au) trwydded y lladd-dy neu'r ddau neu dri lladd-dy dan sylw.
- Y wlad lle torrwyd y carcasau a rhif trwydded y ffatri dorri, neu lle bo angen, rhifau'r ddwy neu dair ffatri dorri lle torrwyd y carcasau. Rhaid dangos y wybodaeth fel a ganlyn: 'Torrwyd y cig yn y batsh yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle cawsant eu torri]' a rhif(au) trwydded y ffatri dorri neu'r ddwy neu dair ffatri dorri dan sylw.

2.3 Beth yw'r rheolau ar gyfer labelu cig wedi'i dorri sydd heb ei ragbecynnu? (fel y'i diffinnir yn Atodiad 5)

Ym maes manwerthu, wrth arddangos cig eidion wedi'i dorri sydd heb ei ragbecynnu ar yr un pryd i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol, rhaid i weithredwyr sicrhau eu bod wedi dilyn y rheol ar gyfansoddiad batsh ar gyfer gwaith torri pellach gan ddefnyddio hyd at dri lladd-dy a thair ffatri dorri ar gyfer yr holl gig wedi'i dorri. (Gweler '**Rheol batshys wrth gynhyrchu cig wedi'i dorri**' uchod).

Fel rhanddirymiad i Erthygl 13(2)(b) (dangos rhif trwydded y lladd-dy) ac (c) (dangos rhif trwydded y ffatri dorri), Rheoliad 1760/2000, rhaid i weithredwyr, yn y man gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, labelu'r holl gig wedi'i dorri sydd heb ei ragbecynnu sy'n cael ei arddangos i'w werthu yn unol â'r uchod gan nodi enw'r wlad lle ganwyd, magwyd a lladdwyd yr anifeiliaid y mae'r cig yn deillio ohonynt, ac yna enw'r wlad lle torrwyd y carcass.

Rhaid i gig o anifeiliaid a gafodd eu geni a/neu eu magu a/neu eu lladd mewn gwahanol wledydd gael ei wahanu, gan gynnwys wrth ei arddangos i'w werthu. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn y busnes manwerthu fod yn agos at y cig fel bod y defnyddiwr terfynol yn gallu gwahaniaethu'n hawdd rhwng cig o wahanol wledydd.

Yn achos gweithredwyr sy'n gwerthu cig eidion wedi'i dorri sydd heb ei ragbecynnu, gyda'r cig yn cael ei arddangos gyda'i gilydd i'w werthu, rhaid iddynt gofnodi bob dydd, gyda'r dyddiad, rhifau trwydded y lladd-dai lle lladdwyd yr anifeiliaid a'r ffatrioedd torri lle torrwyd y carcassau. Rhaid i'r gweithredwyr roi'r wybodaeth hon i unrhyw ddefnyddiwr sy'n gofyn am wybodaeth o'r fath.

Fel rhanddirymiad i'r gofyniad ar gyfansoddiad batsh yn ystod gwaith torri neu friwio pellach ('**Maint a chyfansoddiad grŵp**' uchod), ac ar yr amod bod y gofynion a nodwyd uchod yn cael eu dilyn, gall maint y grŵp fod yn fwy na'r hyn a gynhyrchir mewn diwrnod ar gyfer cig eidion a/neu gig llo wedi'i dorri sydd heb ei ragbecynnu sy'n cael ei arddangos i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol.

2.4 Pa wybodaeth orfodol sy'n rhaid ei dangos ar labeli briwgig eidion? (fel y'i diffinnir yn Atodiad 5)

Rhaid i'ch label ddangos y dynodiadau canlynol. Fodd bynnag, gallwch gynnwys yr holl ddynodiadau ym mharagraff 2.1 ar y label os dymunwch. Gallech hefyd gynnwys dyddiad y briwio. Gweler isod am fwy o fanylion.

- (1) Cyfeirnod neu god;
- (2) Y wlad lle lladdwyd yr anifail – Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE;
- (3) Y wlad lle briwiwyd y cig - Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE; ac
- (4) Os yw'n wahanol i'r wlad lle briwiwyd y cig, y wlad lle bu'r anifeiliaid neu grŵp o anifeiliaid yn byw rhwng eu geni a'u lladd, Tarddiad: [enw Aelod-wladwriaeth a/neu wlad nad yw'n rhan o'r CE] neu Tarddiad: Gwlad nad yw'n rhan o'r CE' os yw'r wlad y tu allan i'r CE.

Dylai dynodiad (1) fod yn gyfeirnod neu god olrhain sy'n cysylltu'n ôl â'r anifail, grŵp o anifeiliaid neu batshys cig eidion gwreiddiol a ddefnyddiwyd i greu'r briwgig.

Rhaid i ddynodiad (2) ddangos enw Aelod-wladwriaeth a/neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle cafodd yr anifeiliaid eu lladd. Rhaid i'ch label gynnwys y geiriau 'Lladdwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]'.

Rhaid i ddynodiad (3) ddangos enw'r Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle cafodd y cig ei friwio; rhaid i'r batsh gael ei friwio mewn un wlad yn unig. Rhaid glanhau peiriannau rhwng sypiau o gig lle mae'r anifeiliaid wedi'u lladd mewn gwlad wahanol i'r batsh blaenorol. Rhaid i'ch label gynnwys y geiriau 'Briwiwyd yn [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]'.

Rhaid i ddynodiad (4) ddangos enwau'r Aelod-wladwriaethau neu wledydd nad ydynt yn rhan o'r CE lle bu'r anifail neu grŵp o anifeiliaid yn byw rhwng eu geni a'u lladd. Rhaid i'ch label gynnwys y geiriau 'Tarddiad: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE]' neu 'Tarddiad: Gwledydd nad ydynt yn rhan o'r CE' os yw'r wlad y tu allan i'r CE. Nid oes rhaid dangos dynodiad (4) os yw gwlad tarddiad yr anifeiliaid yr un fath â'r wlad lle briwiwyd y cig.

Pan gaiff briwgig cymysg ei werthu ac mai cig eidion yw'r gyfran fwyaf o'r cig (er enghraifft, 60 y cant cig eidion, 40 y cant porc), rhaid dangos y dynodiadau gorfodol.

O dan y rheoliadau, rhaid i'r briwgig ddeillio o anifeiliaid a laddwyd mewn un wlad yn unig. Fodd bynnag, pan ddaeth y rheolau gorfodol i rym yn 2000, penderfynodd y DU ac aelod-wladwriaethau eraill gefnogi cynhyrchwyr briwgig trwy ganiatáu i gig eidion ddeillio o anifeiliaid a laddwyd mewn hyd at ddwy wlad. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi dweud nad yw hyn yn dderbyniol.

Er nad yw offal wedi'i gynnwys o dan y rheoliadau Labelu Cig Eidion, os yw'n cael ei gymysgu gyda chyfran fwy o friwigig eidion amrwd o'r un wlad lladd, caniateir cymysgu o'r fath a byddai angen labelu'r briwigig â'r dynodiadau gorfodol arbennig ar gyfer briwigig.

I orffen:

- Bellach, ni chaniateir i ffatrioedd torri gymysgu briwigig eidion amrwd (waeth a yw'n cynnwys offal ai peidio) o ddwy wlad lladd wahanol neu fwy.
- Caniateir cymysgu cig eidion ac offal o'r un wlad ar gyfer briwio a rhaid labelu'r briwigig â'r dynodiadau gorfodol.

2.5 Pa wybodaeth orfodol sy'n rhaid ei dangos ar labeli tocion? (fel y'u diffinnir yn Atodiad 5)

Fel rhanddirymiad i Erthygl 13(2)(b) (dangos rhif trwydded y lladd-dy) ac (c) (dangos rhif trwydded y ffatri dorri), a pharagraff 5(a)(i) (dangos yr Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle ganwyd yr anifeiliaid) ac (a)(ii) (dangos yr Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle magwyd yr anifeiliaid) Rheoliad 1760/2000, rhaid cynnwys y canlynol ar labeli tocion:

- (a) Enw'r wlad lle lladdwyd yr anifeiliaid y mae'r tocion yn deillio ohonynt. Rhaid dangos y wybodaeth fel hyn: "Lladdwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle lladdwyd yr anifeiliaid]".
- (b) Enw'r wlad lle cynhyrchwyd y tocion a rhif cymeradwyo'r ffatri lle cawsant eu cynhyrchu. Rhaid dangos y wybodaeth fel hyn: "Cynhyrchwyd yn: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle y'u cynhyrchwyd]" a rhif cymeradwyo'r ffatri.
- (c) Enwau'r gwledydd lle ganwyd a magwyd yr anifeiliaid yn y grŵp. Rhaid dangos y wybodaeth fel hyn: 'Ganwyd a magwyd yn: [enwau'r gwledydd lle ganwyd a magwyd yr anifeiliaid]'.

Fel rhanddirymaid i (a) ac (c) uchod, pan fydd yr holl anifeiliaid yn y grŵp wedi'u geni, eu magu a'u lladd yn yr un wlad, gall gweithredwyr ddefnyddio'r dynodiad 'Gwlad tarddiad: [enw Aelod-wladwriaeth neu wlad nad yw'n rhan o'r CE lle ganwyd, magwyd a lladdwyd yr anifeiliaid]'.

2.6 Sut dylech chi labelu cig eidion sydd wedi'i fewnforio o wlad nad yw'n rhan o'r CE pan nad yw'r holl wybodaeth orfodol ar gyfer y label ar gael?

Pan na fydd yr holl wybodaeth orfodol ar gael ar gyfer cig wedi'i fewnforio o wlad nad yw'n rhan o'r CE, rhaid i chi o leiaf gynnwys y geiriau canlynol ar y label - 'Tarddiad: Gwlad nad yw'n rhan o'r CE' ('Origin: Non-EC') a 'Lladdwyd yn [enw

gwlad nad yw'n rhan o'r CE]. Dylech hefyd gynnwys cyfeirnod neu god pan gaiff y cig ei dorri neu ei ail-becynnu ar ôl ei fewnforio.

2.7 Sut mae'r rheolau gorfodol yn berthnasol i 'Cig Eidion Cymreig', 'Cig eidion o'r Alban' a 'Cig Eidion Ynysoedd Erch'?

Rhaid i labeli cynhyrchion sy'n rhan o'r system Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) ac Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO), er enghraifft, 'Cig Eidion Cymreig', 'Cig Eidion o'r Alban' a 'Cig Eidion Ynysoedd Erch', gynnwys y dynodiadau gorfodol a restrir ym mharagraff 2.1.

2.8 Beth yw'r meini prawf ar gyfer PGI a PDO?

Mae cynhyrchion Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) yn cael eu cynhyrchu, prosesu a pharatoi o fewn ardal ddaearyddol, fel y'i diffinnir o dan Reoliad (EC) Rhif 510/2006 y Cyngor ar 20 Mawrth 2006 ar warchod dynodiadau daearyddol a dynodiadau tarddiad cynhyrchion amaethyddol a bwydydd. Rhaid i'r cynnyrch fod â rhinwedd benodol, enw da neu nodwedd arall sy'n gysylltiedig â'r ardal. Er enghraifft, mae "Cig Eidion Cymreig" yn PGI. I gyfrif fel "Cig Eidion Cymreig", rhaid i'r cig ddod o wartheg sydd wedi'u geni a'u magu yng Nghymru, y gellir eu holrhain yn llawn ac sy'n cael eu lladd a'u prosesu mewn lladd-dai/ffatrioedd torri sydd wedi'u cymeradwyo gan Hybu Cig Cymru.

Mae cynhyrchion Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) yn cael eu cynhyrchu, prosesu a pharatoi mewn ardal ddaearyddol, a rhaid i nodweddion a rhinweddau'r cynnyrch ddeillio o'r ardal ddaearyddol a'r dulliau cynhyrchu sy'n unigryw i'r ardal honno. Mae "Cig Eidion Ynysoedd Erch" yn PDO a dim ond ar Ynysoedd Erch mae'n cael ei gynhyrchu, ei ladd a'i drin.

Adran 3

Rheolau labelu ar gyfer marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau

3.1 Sut dylech chi ddsbarthu cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau i gategorïau?

Adeg ei ladd, dylai pob anifail buchol 12 mis oed neu iau gael ei ddsbarthu i un o'r ddau gategori hyn:

- Categori V: anifeiliaid buchol 8 mis oed neu iau, h.y. anifeiliaid buchol o ddiwrnod eu geni nes eu bod yn 8 mis oed (Llythyren adnabod categori "V");
- Categori Z: anifeiliaid buchol dros 8 mis oed ond iau na 12 mis oed h.y. anifeiliaid buchol o'r diwrnod ar ôl iddynt droi'n 8 mis oed tan y diwrnod y maent yn troi'n 12 mis oed. (Llythyren adnabod categori "Z").

(Mae categori 'Z' yn cynnwys teirw ifanc sy'n tyfu'n gyflym sy'n cael eu magu o dan system pesgi anifeiliaid bïff gyffredin ac sy'n cyrraedd eu pwysau lladd cyn eu bod yn 12 mis oed yn ogystal â lloi a oedd arfer cael eu magu tan eu bod yn 8 mis oed a hŷn o dan system cig llo rosé).

Rhaid ddsbarthu anifeiliaid buchol i gategori gan ddefnyddio'r wybodaeth ym mhasbortau'r anifeiliaid buchol neu, os nad yw hyn yn bosibl, gan ddefnyddio'r data yn y System Olrhain Gwartheg (CTS). Rhaid gosod y llythrennau adnabod categori yn syth ar ôl y lladd a rhaid eu dangos ar wyneb allanol y carcass ar label neu stamp. Rhaid i'r labeli fesur 50cm² o leiaf, ac os defnyddir stamp, rhaid i'r llythyren fesur o leiaf ddau gentimetr mewn uchder. Rhaid gosod y label neu'r stamp ar ran ôl yr anifail ar y syrllwyn ger y pedwerydd fertebra meingefnol, ac ar y chwarthor blaen, ar y frisedd rhwng 10 a 30 centimetr o ochr y sternwm wedi'i dorri.

3.2 Pa labeli / disgrifiadau gwerthu y dylid eu cynnwys?

Ni ellir ond marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau yn yr Aelod-wladwriaethau o dan y disgrifiad(au) gwerthu gorfodol fel y'u rhestrir yn neddfwriaeth yr UE. Gellir ychwanegu enw neu ddynodiad y darn o gig neu offal dan sylw at y disgrifiad gwerthu os oes angen.

Mae'r disgrifiadau gwerthu canlynol yn berthnasol i gig sy'n cael ei farchnata yn y DU:

- Rhaid disgrifio cig o anifeiliaid a laddwyd yn 8 mis oed neu iau fel 'cig llo';
a

- Rhaid disgrifio cig o anifeiliaid a laddwyd dros 8 mis oed ond iau na 12 mis oed fel 'cig eidion'.

Mae'r disgrifiadau gwerthu yn amrywio o un Aelod-wladwriaeth i'r llall. Maent wedi'u nodi yn neddfwriaeth berthnasol yr UE, gweler Atodiad X1a Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 fel y'i diwygiwyd (Atodiad II Rheoliad (EC) Rhif 700/2007 y Cyngor gynt)).

Rhaid i'r wybodaeth ganlynol fod ar label y cig ym mhob cam o'r gwaith cynhyrchu a marchnata:

- (i) Oed yr anifeiliaid adeg eu lladd yn defnyddio'r geiriau:
 - 'oed adeg lladd: hyd at 8 mis' yn achos anifeiliaid 8 mis oed neu iau, neu
 - 'oed adeg lladd: 8-12 mis' yn achos anifeiliaid dros 8 mis oed ond iau na 12 mis oed.

Fodd bynnag, gall gweithredwyr ddewis defnyddio'r llythyren adnabod categori (V neu Z) (gweler paragraff 18) yn lle'r geiriau yn (i) ym mhob cam o'r gwaith cynhyrchu a marchnata, ac eithrio wrth werthu i'r defnyddiwr terfynol.

- (ii) Y disgrifiadau gwerthu gofynnol perthnasol fel y'u nodir ar gyfer y DU yn Atodiad X1a Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 fel y'i diwygiwyd (Atodiad II Rheoliad (EC) Rhif 700/2007 y Cyngor gynt).

Rhaid i'r dynodiadau am oedran yr anifail buchol adeg ei ladd a'r disgrifiad gwerthu fod:

- Yn gwbl ddarllenadwy ym mhob cam o'r gwaith cynhyrchu a marchnata;
- Wedi'u cyflwyno yn agos at ei gilydd ac ar yr un label ym man gwerthu'r cig i'r defnyddiwr terfynol.

3.3 A allaf gymysgu batshys o offal o anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau?

Caniateir cymysgu batshys o offal ar yr amod eu bod wedi'u labelu'n briodol. Os yw'r cymysgedd yn cynnwys offal o anifeiliaid buchol iau nag 8 mis oed ac anifeiliaid buchol rhwng 8 a 12 mis oed, dylid dangos y ddau ddisgrifiad gwerthu a'r ddwy ystod oedran ar y label. Gellir cynnwys y llythyren adnabod categori berthnasol, V neu Z, ym mhob cam o'r gwaith cynhyrchu a marchnata, ac eithrio wrth werthu i'r defnyddiwr terfynol.

Mae defnyddio 'afu llo' neu 'iau llo' fel atodiad i'r disgrifiad gwerthu yn dderbyniol yn achos afu/iau o anifeiliaid buchol 8 mis oed neu iau (Categori V). Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio 'afu llo' neu 'iau llo' yn achos anifeiliaid buchol rhwng 8 a 12 mis oed (Categori Z) yn y DU oherwydd ein bod ni wedi dynodi unrhyw gig 8 mis oed a hŷn yn 'gig eidion', a byddai ei alw'n 'afu llo' neu 'iau llo' yn drysu cwsmeriaid.

3.4 A ellir cymysgu cig anifeiliaid buchol hyd at 8 mis oed a chig anifeiliaid buchol 8-12 mis oed?

Ac eithrio offal, ni chaniateir cymysgu cig o ddau gategori gwahanol, gan mai diben y Rheoliad yw gwahanu'r ddau fath o gig yn ôl oed. Nid oes gofyniad yn y Rheoliad, er enghraifft, i gadw cig wedi'i ddiesgyrnu sydd wedi ei labelu ar wahân mewn oergelloedd.

3.5 A allaf ychwanegu gwybodaeth at fy labeli?

O dan y Rheoliad newydd, gall gweithredwyr ddewis ychwanegu gwybodaeth ddewisol sydd wedi'i chymeradwyo yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Erthyglau 16 neu 17 Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 (o dan ddarpariaethau'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion) i ategu'r disgrifiadau gorfodol, sef 'cig llo' (Categori V) neu 'cig eidion' (Category Z). Felly, gall gweithredwyr wneud cais dan y cynllun i ddefnyddio disgrifiadau ategol sydd, er enghraifft, yn cyfeirio at y modd y caiff y llo ei magu o ran sut y cânt eu bwydo a ble y cânt eu cadw, er mwyn cynhyrchu cig llo neu gig eidion sy'n ystyriol o les.

3.6 A allaf ddefnyddio'r term cig llo rosé?

Nid oes gan gynhyrchwyr a gwerthwyr cig llo (Categori V) yr hawl i labelu eu cynnyrch fel 'cig llo rosé'. Mae'r term yn ymddangos yn Atodiad X1a III 2(B) Rheoliad 1234/2007 y Cyngor (fel y'i diwygiwyd) i'w ddefnyddio gydag anifeiliaid Categori Z yn unig a dim ond yn yr Aelod-wladwriaethau sydd wedi penderfynu defnyddio'r term fel hyn y gellir gwneud hynny. Rydym wedi penderfynu defnyddio 'cig eidion' ar gyfer anifeiliaid Categori Z.

3.7 Defnyddio dau ddisgrifiad neu fwy

Mae'n rhaid i'r label gynnwys y disgrifiad gwerthu sy'n berthnasol i'r Aelod-wladwriaeth lle caiff y cig ei farchnata. Gall cig fod â dau a mwy o labeli gwahanol ar yr un pryd sy'n cynnwys y disgrifiadau gwerthu yn y gwahanol Aelod-wladwriaethau.

3.8 Beth yw'r goblygiadau cofnodi ar gyfer gweithredwyr?

Mewn lladd-dai, rhaid i weithredwyr gofnodi rhif adnabod a dyddiad geni'r anifeiliaid. (Gweler paragraff 1.8 hefyd).

Adran 4

Honiadau eraill o dan y Cynllun Cymeradwyo ar gyfer Labelu Cig Eidion

4.1 Beth yw'r Cynllun Cymeradwyo ar gyfer Labelu Cig Eidion?

Mae'r Cynllun Labelu Cig Eidion sydd wedi'i gymeradwyo wedi bod ar waith yn y DU ers 1997. Mae'n gweithredu deddfwriaeth y CE sy'n mynnu bod gwybodaeth ar labeli cig eidion, ac eithrio arwyddion labelu gorfodol, yn cael ei chymeradwyo gan yr awdurdodau yn yr Aelod-Wladwriaethau a'i gwirio gan ddilyswyr cydnabyddedig.

4.2 Pa wybodaeth sydd angen ei chymeradwyo?

Gwybodaeth nad yw'n orfodol am y dull cynhyrchu, nodweddion y cig neu'r anifail y mae'n deillio ohono a honiadau mewn perthynas â'r tarddiad, fel y rhanbarth neu'r ardal. Dyma enghreifftiau o wybodaeth sydd angen ei chymeradwyo:

- Y rhanbarth neu'r ardal lle cafodd yr anifail ei eni a'i fagu (er enghraifft, Ceredigion);
- Brîd neu groes-frîd (gweler paragraff 3.2);
- Oedran neu ryw yr anifail;
- Y dull cynhyrchu (er enghraifft, gwarant fferm, wedi'i besgi ar borfa);
- Y dull lladd (er enghraifft, Halal);
- Y dyddiad lladd; a
- Dull neu hyd yr aeddfedrwydd.

Os ydych yn ansicr a oes angen cymeradwyo'r wybodaeth rydych am ei defnyddio, cysylltwch â'r Llywodraeth.

Os ydych yn bwriadu rhoi'r wybodaeth hon neu wybodaeth debyg ar eich labeli, mae'n rhaid i chi sicrhau mai'r un yw'r wybodaeth rydych yn ei darparu ar gyfer pob anifail mae'r cynnyrch rydych yn ei labelu'n deillio ohono. Os na allwch warantu hyn, ni fyddwn yn gallu cymeradwyo eich cais. Bydd angen i chi gael cymeradwyaeth cyn rhoi enw i gynnyrch lle yr honnir bod yr holl gynnyrch yn rhannu nodweddion penodol. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, cynllun gwarant fferm lle y dywedwch fod yr holl gig eidion yn deillio o ffermydd a lladd-dai mewn lleoliadau penodol neu sy'n bodloni safonau penodol. Os ydych yn rhoi enw'r brîd ar eich labeli, mae'n rhaid i'ch labeli nodi'n glir bod y cig eidion yn deillio naill ai o anifail brîd pur neu groes-frîd. Er enghraifft, wrth labelu eich cig eidion fel 'Henffordd', byddem yn disgwyl i'r anifail y mae'r cig eidion yn deillio ohono fod yn frîd pur (ei dad a'i fam yn wartheg Henffordd). Fodd bynnag, os mai dim ond y tad oedd yn Henffordd, dylai eich label nodi hyn yn glir trwy ddweud

'croes Henffordd' neu 'tad Henffordd', neu drwy ddarparu datganiad sy'n egluro hynny ar y label. Os yw'r cig eidion yn cael ei werthu'n rhydd, mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei harddangos yn y man gwerthu, mewn man lle gall cwsmeriaid ei gweld. Dylai'r termau fod yn glir i'ch cwsmeriaid hefyd. Er enghraifft, mae'n rhaid i derm fel 'wedi'i besgi ar borfa' olygu bod yr anifail dan sylw wedi cael ei besgi'n bennaf ar borfa yn y cae.

O dan y system orfodol, mae'n rhaid i'r holl gig eidion a werthir nodi ar y label yr Aelod-Wladwriaeth neu'r wlad nad yw'n rhan o'r CE lle cafodd yr anifail ei eni, ei fagu a'i ladd. Caniateir honiadau mewn perthynas â tharddiad rhanbarthol neu leol, ond bydd rhaid eu cymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion ac yn ychwanegol i'r labelu gorfodol a ddisgrifir yn Adran 2. Er enghraifft, os hoffech roi 'Ceredigion' ar y label, bydd angen cymeradwyaeth. Bydd hefyd angen i chi ychwanegu'r dynodiadau gorfodol sy'n ymwneud â tharddiad yn y DU. Bydd hefyd angen cymeradwyaeth os yw'r honiad ar y label yn honiad marchnata (hyrwyddo) i ddefnyddwyr (er enghraifft, os yw 'Archentaidd', 'Gwyddelig', 'Seland Newydd', 'Wrwgwaiaidd' yn ymddangos fel y prif honiad a bod y cynnyrch yn cael ei werthu fel hyrwyddiad ar gyfer cig eidion o'r Ariannin, Iwerddon, Seland Newydd neu Uruguay). Felly, ystyrir bod honiadau marchnata yn wirfoddol o dan Reoliadau'r Comisiwn, er bod angen i'r wybodaeth orfodol am y tarddiad ymddangos ar y label hefyd. Er enghraifft, os yw cig eidion yn cael ei farchnata fel 'Cig eidion ffres' a'i fod yn deillio o'r Ariannin neu Seland Newydd, nid oes angen cymeradwyo'r wybodaeth gan nad oes unrhyw honiad marchnata'n cael ei wneud. Fodd bynnag, o dan y wybodaeth orfodol, mae'n rhaid i'r label ddangos arwydd gwlad y tarddiad, er enghraifft 'Tarddiad: Seland Newydd'. I gael gwybodaeth am arwyddion gorfodol, gweler Adran 2.

4.3 Pa wybodaeth *nad* oes angen ei chymeradwyo?

Nid oes angen cymeradwyo labelu gorfodol (Adran 2). Nid oes chwaith angen cymeradwyo gwybodaeth y gellir ei gwirio'n syml yn y man gwerthu a gwybodaeth y mae deddfwriaeth arall yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei darparu. Nid oes angen cymeradwyo'r wybodaeth ganlynol:

- Enw'r cynnyrch neu'r darn (e.e. sylwyn);
- Pwysau'r cynnyrch;
- Y dyddiad 'ar ei orau cyn' neu 'defnyddio erbyn';
- Amodau storio neu amodau defnyddio (e.e. 'cadwch mewn oergell');
- Cyfarwyddiadau defnyddio (e.e. cyfarwyddiadau coginio);
- Enw a chyfeiriad y cynhyrchwr, y pecynnwr neu'r gwerthwr;
- Datganiadau bod y cynnyrch wedi'i becynnu mewn amgylchedd amddiffynnol;
- Datganiadau yn unol â'r grid dosbarthu carcasau e.e. 'E3' sy'n dderbyniol ar labeli carcasau at ddibenion Dosbarthu Carcasau Eidion (BCC). (Fodd bynnag, byddai angen cymeradwyo cig eidion wedi'i becynnu sydd â 'cig eidion E3' ar y label).

- Y nod iechyd sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Cig Ffres ac arwyddion milfeddygol tebyg eraill;
- Label sy'n dweud 'Organig';
- Label sy'n dweud 'Kosher'; a
- Chynhyrchion PDO a PGI. (Yr unig gig eidion Prydeinig y mae'r rhain yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd yw 'Cig eidion Albanaidd', 'Cig eidion Cymreig' a 'Chig eidion Ynysoedd Erch'). I gael rhagor o fanylion am feini prawf PGIs a PDOs, gweler paragraff 2.8).

Os ydych yn ansicr a oes angen cymeradwyo'r wybodaeth rydych am ei defnyddio, cysylltwch â'r Llywodraeth.

4.4 Pa reolau mae'n rhaid i chi eu dilyn o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion?

Mae'n rhaid i'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i'ch cwsmeriaid fod yn glir ac ni ddylai eu camarwain. Mae'n rhaid i chi allu profi bod y wybodaeth a ddarperir am eich cig eidion yn gywir. Felly, mae'n rhaid i chi gyflogi dilyswr annibynnol o'n rhestr o gyrrff dilysu labelu cig eidion a gydnabyddir gan y Llywodraeth, a fydd yn archwilio eich system olrhain anifeiliaid i sicrhau bod y wybodaeth ar eich labeli yn gywir. Dosberthir rhestr o'r dilyswyr cydnabyddedig gyda'r ffurflen gais, neu gallwch ofyn i Lywodraeth am gopi.

Bydd y dilyswr, a gydnabyddir gan y Llywodraeth, yn gwirio bod y wybodaeth rydych yn ei rhoi i'ch cwsmeriaid yn gywir, a chi fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r dilyswr a'i dalu. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod gan y dilyswr fynediad i'ch eiddo a'ch cofnodion bob amser. Cyn iddo archwilio eich system olrhain anifeiliaid, mae'n rhaid i'r dilyswr gael gwybod yr union honiadau rydych yn eu gwneud, felly dylech roi copi o'ch cais a'ch manyleb gymeradwy iddo. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych gopiau o'ch dogfen gymeradwyo a gyhoeddwyd gan Lywodraeth a'r dystysgrif cydymffurfio a gyhoeddwyd gan eich dilyswr o ganlyniad i'ch arolygiad diwethaf. Mae'n rhaid i'ch dilyswr gynnal gwiriadau rheolaidd i brofi bod eich gwybodaeth yn gywir.

Mae'n rhaid i chi greu system i warantu bod y wybodaeth a ddarparwch yn gywir. Mae'n debyg y bydd hyn yn golygu camau pellach gennych chi a'ch cyflenwyr, yn ogystal â'r camau hynny sy'n ofynnol o dan y trefniadau labelu gorfodol. Fel gyda labelu gorfodol, mae'n rhaid i'ch system warantu cysylltiad rhwng eich cig eidion a'r anifail neu'r grŵp o anifeiliaid y mae'n deillio ohono fel y gallwch brofi cywirdeb y wybodaeth rydych yn ei rhoi i'ch cwsmeriaid.

Os hoffech i'ch cais fod yn berthnasol i'ch cig eidion pan fydd yn cael ei werthu mewn siopau y tu allan i'ch busnes, mae'n rhaid i chi restru pob un o'r siopau hyn yn eich cais grŵp a diweddarau'r rhestr o leiaf unwaith y flwyddyn os bydd y sefyllfa'n newid. Bydd angen i chi gyflogi eich dilyswr i gyflwyno adroddiad ar

eich mesurau chi a mesurau eich siop. Os bydd angen dilysu honiadau eraill yn y siopau dan sylw, efallai y bydd yn gyfleus i'r dilyswr gydgysylltu'r gwaith dilysu i leihau costau.

4.5 Sut ydych yn cyflwyno cais i'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion?

Os ydych yn ymgeisydd newydd, cysylltwch â'r Llywodraeth i gael pecyn ymgeisio. Mae'n rhaid i'ch cais ddangos y wybodaeth rydych am ei rhoi i'ch cwsmeriaid (gan gynnwys copi o'ch label(i) ac esbonio sut y gallwch ddarparu tystiolaeth (trwy eich cofnodion) bod y wybodaeth yn gywir. Mae'n rhaid i'ch manyleb ddisgrifio eich system olrhain anifeiliaid a ddefnyddir ym mhob cyfnod cynhyrchu a gwerthu (o olrhain yr anifeiliaid, eu lladd, torri/tynnu'r esgyrn a'u pecynnu, i'r lefel manwerthu, fel sy'n berthnasol). Mae'n rhaid i'ch system reoli ddangos y gellir olrhain y cig eidion rydych yn ei werthu neu'n ei gyflenwi yn ôl i'r anifail neu'r grŵp o anifeiliaid y mae'n deillio ohono. Yn dibynnu ar eich math o fusnes, gallai'r system reoli sy'n cefnogi'r honiadau ar eich labeli gynnwys defnyddio tagiau clust a phasbortau gwartheg, cofnodion lladd-dai, dogfennau gan eich cyflenwr, system olrhain gyfrifiadurol a chofnodion yn eich busnes. Dylech anfon eich ffurflen gais, ynghyd â'ch gweithdrefnau rheoli olrhain anifeiliaid, i Lywodraeth. Os yw eich busnes wedi'i leoli yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, dylech gyflwyno eich cais i'r adran briodol ar y ffurflen gais:

Lloegr

Rural Payments Agency (RPA)

Meat Technical Schemes (MTS), Rural Payments Agency (RPA), Eden Bridge House, Lowther Street, Carlisle, CA3 8DX

Ffôn: 01228 640469

Yr Alban

The Scottish Government

Rural and Environment Directorate, Food and Drink Industry Division, B1 Spur, Saughton House, Edinburgh, EH11 3XD

Ffôn: 0300 244 9291

Gogledd Iwerddon

Department of Agriculture and Rural Development Northern Ireland (DARDNI)

Quality Assurance Branch, Food Delivery and Customer Services Unit, Department of Agriculture and Rural Development Northern Ireland (DARDNI), Dundonald House, Upper Newtownards Road, Belfast, BT4 3SB

Ffôn: 028 9052 4687

4.6 Pryd y dylwn drefnu arolygiad?

Os bydd gennym unrhyw gwestiynau am eich cais, byddwn yn eich ffonio neu'n ysgrifennu atoch. Unwaith i ni gymeradwyo eich cais, gallwch ychwanegu'r wybodaeth briodol at eich label. Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn ein llythyr cymeradwyaeth, dylech gysylltu â'ch dilyswr annibynnol i drefnu arolygiad. Ar ôl yr arolygiad hwn, os bydd eich dilyswr yn fodlon gyda safon eich system olrhain anifeiliaid, bydd yn cyhoeddi tystysgrif cydymffurfio am gyfnod penodol. Dylai'r adroddiad esbonio'r mesurau y mae'r dilyswr wedi eu defnyddio a gwneud sylwadau ar ddibynadwyedd y wybodaeth ar eich labeli. Mae'n rhaid i chi anfon copi o dystysgrif cydymffurfio eich dilyswr i Lywodraeth o fewn chwe mis i ddyddiad y gymeradwyaeth. Ar ôl yr adroddiad cyntaf, bydd angen adroddiadau pellach naill ai yn flynyddol neu ar ôl cyfnod a bennir gan eich dilyswr. Byddwn yn adolygu eich cymeradwyaeth yng ngoleuni pob tystysgrif cydymffurfio, neu wybodaeth gan eich dilyswr.

4.7 Sut bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei defnyddio?

Bydd y Llywodraeth a'r awdurdodau gorfodi yn defnyddio'r wybodaeth i benderfynu a yw eich cais yn bodloni rheolau'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion. Gellir defnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill hefyd, megis gwerthuso'r cynllun. Mae unrhyw ddata a gedwir yn electronig yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

Adran 5

Cynnwys gwybodaeth nad yw'n orfodol ar labeli cig eidion sy'n cael ei fewnforio a'i allforio

5.1 A ydych am werthu cig eidion wedi'i fewnforio o Aelod-Wladwriaethau eraill sy'n rhan o'r Gymuned Ewropeaidd (CE) a rhoi gwybodaeth ar y labeli sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol?

Os ydych am gynnwys gwybodaeth ar labeli cig eidion wedi'i fewnforio o wlad arall yn y CE sy'n ychwanegol i'r dynodiadau gorfodol (Adran 2), efallai y bydd angen i chi anfon cais am gymeradwyaeth i awdurdodau'r wlad lle mae'r cig eidion dan sylw yn cael ei gynhyrchu neu ei werthu. Cysylltwch â'r Llywodraeth i gael cyngor ynglŷn â hyn.

Os oes angen anfon cais i awdurdodau'r wlad honno, bydd angen i chi nodi pa wybodaeth rydych am ei chynnwys ar y label ac esbonio'r mesurau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth. Dylai hyn gynnwys y system reoli a ddefnyddir ym mhob cyfnod cynhyrchu a gwerthu, a byddai hefyd yn berthnasol i'r gwaith o drafod neu brosesu'r cig eidion neu'r cig llo ffres neu wedi'i rewi a wneir yn y wlad honno. Yna, dim ond ar ôl i bob gwlad gymeradwyo eich cais y byddech yn gallu labelu'r cig eidion hwn yn y DU.

Mae rheolau symlach yn berthnasol os ydych yn mewnforio cig eidion mewn pecynnau manwerthu bach sydd wedi cael eu labelu mewn un Aelod-Wladwriaeth yn unol â manyleb gymeradwy, lle nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y label. Dim ond gwlad y tarddiad (allforio) sydd angen cymeradwyo'r labeli a gellir gwerthu'r cig eidion yn y DU heb gymeradwyaeth bellach gennym cyn belled:

- Nad yw'r deunydd pecynnu wedi'i newid mewn unrhyw ffordd;
- Bod yr Aelod-Wladwriaeth y mae'r cig yn tarddu ohoni wedi darparu'r holl wybodaeth berthnasol i ni ymlaen llaw; a
- Bod cymeradwyaeth yr Aelod-Wladwriaeth y mae'r cig yn tarddu ohoni hefyd yn berthnasol i fanyleb labelu'r pecyn manwerthu a werthir yma.

5.2 A ydych am werthu cig eidion wedi'i fewnforio o wlad y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd (CE) a rhoi gwybodaeth ar y labeli sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol?

Os ydych am gynnwys gwybodaeth ar labeli cig eidion wedi'i fewnforio o wlad y tu allan i'r CE sy'n ychwanegol i'r dynodiadau gorfodol (Adran 2), cysylltwch â'r Llywodraeth i gael cyngor ynglŷn â hyn. Dim ond y wybodaeth ychwanegol y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi caniatâd i'r wlad ei defnyddio y gallwch ei rhoi ar eich labeli.

5.3 A ydych am allforio cig eidion i wledydd eraill yn y Gymuned Ewropeaidd (CE) a rhoi gwybodaeth ar y labeli sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol?

Os ydych am allforio cig eidion i wlad arall yn y CE, mae'n rhaid i chi ddilyn yr holl ddeddfwriaeth allforio sydd ar waith ar y pryd. Os ydych am gynnwys gwybodaeth ar y label sy'n ychwanegol i'r wybodaeth honno sy'n ofynnol o dan y system orfodol (Adran 2), efallai y bydd angen i chi gyflwyno cais i awdurdodau pob gwlad berthnasol. Cysylltwch â'r Llywodraeth i gael cyngor ynglŷn â hyn. Os bydd angen cyflwyno cais i awdurdodau'r wlad honno, bydd angen i chi nodi pa wybodaeth rydych am ei chynnwys ar y label ac esbonio'r mesurau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth. Dylai hyn gynnwys y system reoli a ddefnyddir ym mhob cyfnod cynhyrchu a gwerthu, a byddai hefyd yn berthnasol i'r gwaith o drafod neu brosesu'r cig eidion neu'r cig llo ffres neu wedi'i rewi a wneir yn y wlad honno. Yna, dim ond ar ôl i'r awdurdodau gymeradwyo'r cais hwnnw y byddech yn gallu cynnwys y wybodaeth ychwanegol ar eich labeli yn y wlad honno.

Mae rheolau symlach yn berthnasol os ydych yn bwriadu allforio cig eidion mewn pecynnau manwerthu bach i Aelod-Wladwriaeth arall, lle mae'r cig eidion wedi cael ei labelu yn y DU yn unol â manyleb gymeradwy, lle nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y label. Dim ond y Llywodraeth sydd angen cymeradwyo'r wybodaeth hon a gellir gwerthu'r cig eidion yn yr Aelod-Wladwriaeth sy'n mewnfario heb gymeradwyaeth bellach gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno cyn belled:

- Nad yw'r deunydd pecynnu wedi'i newid mewn unrhyw ffordd;
- Bod yr Aelod-Wladwriaeth sy'n mewnfario wedi derbyn yr holl wybodaeth berthnasol ymlaen llaw; a
- Bod cymeradwyaeth y Llywodraeth hefyd yn berthnasol i fanyleb labelu'r pecyn manwerthu a werthir yn yr Aelod-Wladwriaeth sy'n mewnfario.

Gall y Llywodraeth roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn a byddwn yn gallu rhoi cyngor i chi os byddwch yn cael anawsterau wrth geisio sicrhau bod eich labeli'n cael eu cymeradwyo mewn gwledydd eraill.

Adran 6 Gorfodi

Mae Offeryn Statudol (OS) newydd o'r enw 'Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011' wrthi'n cael ei ddatblygu a rhagwelir y daw i rym ar 31 Mawrth 2011. Bydd yr Offeryn hwn yn darparu'r pwerau gorfodi priodol mewn ffordd debyg i'r rhai sydd eisoes ar waith ar gyfer deddfwriaeth gyfredol yr UE ar labelu cig eidion. Bydd yr Offeryn hwn hefyd yn ymgorffori'r pwerau gorfodi cyfredol a nodir yn Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001 (OS 1360 (W88)/2001).

Fel yr amlinellir yn yr Offeryn drafft, os bydd cig eidion neu gig llo wedi'i labelu a'i farchnata mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau, gall swyddog wedi'i awdurdodi o awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad i'r unigolyn y mae'r cig eidion neu'r cig llo yn ei feddiant a mynnu ei fod yn:

- (a) Ail-labelu'r cig eidion neu'r cig llo yn syth, yn unol â'r Rheoliadau hyn, neu
- (b) Nad yw'n gwerthu'r cig eidion neu'r cig llo nes iddo gael ei ail-labelu yn unol â'r Rheoliadau hyn neu yn ei waredu, a bydd unrhyw unigolyn sy'n methu cydymffurfio â'r hysbysiad hwn yn euog o drosedd.

Atodiad 1

Enghreifftiau o labeli sy'n cynnwys gwybodaeth orfodol

Yn yr enghreifftiau isod, mae gwybodaeth orfodol mewn **print bras**. Mae gwybodaeth sydd angen ei chymeradwyo a'i dilysu'n annibynnol mewn *llythrennau italig*.

Label ar gyfer carcass

Cig Eidion Prydeinig
03/04/07/42864/1 – cyfeirnod/ cod
Dosbarthiad: CR3L (Gorfodol ar gyfer y rhan fwyaf o ladd-dai)
Pwysau: 152 cilogram
Tarddiad: y DU
Lladdwyd yn: y DU (1234)

Label ar gyfer cig eidion i'w fanwerthu (wedi'i ragbecynnu)

Cig Eidion Prydeinig
08/07/07/324694/1 – cyfeirnod/ cod
Stêc Syrllwyn
Pwysau: 600 gram
Pris: £3.00
Pris uned: £5.00/cilogram
Tad Aberdeen Angus
Tarddiad: y DU
Lladdwyd yn: y DU (1234)
Torrwyd yn: y DU (5678)

Label ar gyfer briwgig

Briwgig Eidion Prydeinig
08/07/07/346248/2 – cyfeirnod/ cod
Gwarant Fferm
Pwysau: 1 cilogram
Pris: £4.75
Briwiwyd yn: y DU
Lladdwyd yn: y DU

Cafodd pob anifail y mae'r briwgig eidion yn deillio ohono ei eni, ei fagu a'i ladd yn y DU

Atodiad 2

Enghreifftiau o arddangosiad o labeli gorfodol ar gyfer cig eidion heb ei ragbecynnu (a labeli gwag)

Stêc Ffolen

Hambwrdd: A	Cyfeirnod/ cod: AB 1234 00107 (<i>enghraifft yn unig</i>)
Tarddiad: y DU* - Prydeinig	Lladdwyd yn: y DU Rhif trwydded y lladd-dy: 1234
Torrwyd yn: y DU Rhif trwydded y ffatri dorri: 5678	

(*Ile cafodd yr anifail ei eni, ei fagu a'i ladd yn y DU)

Syrlwyn

Hambwrdd: B	Cyfeirnod/ cod: F18 – 23/07/07 (<i>enghraifft yn unig</i>)
Ganwyd yn: Yr Iseldiroedd	Magwyd yn: Yr Iseldiroedd a Gwlad Belg
Lladdwyd yn: Gwlad Belg Rhif trwydded y lladd-dy: 4321	Torrwyd yn: y DU Rhif trwydded y ffatri dorri: 9876

Briwgig Eidion

Hambwrdd: C	Cyfeirnod/ cod: HB 626 – DN 5 (<i>enghraifft yn unig</i>)
Tarddiad: Eire	Lladdwyd yn: y DU
Briwiwyd yn: y DU	

(Ile cafodd yr anifail ei eni a'i fagu mewn gwlad wahanol i wlad y briwio)

Labeli gwag ar gyfer cig eidion heb ei ragbecynnu

Hambwrdd:	Cyfeirnod/ cod:
Ganwyd yn:	Magwyd yn:
Lladdwyd yn: Rhif trwydded y lladd-dy:	Torrwyd yn: Rhif trwydded y ffatri dorri:

Labeli gwag ar gyfer briwgig eidion (gweler paragraff 2.4)

Hambwrdd:	Cyfeirnod/ cod:
Lladdwyd yn:	Briwiwyd yn:
Ganwyd yn:	Magwyd yn:

Atodiad 3

Enghreifftiau o labeli ar gyfer marchnata cig eidion anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau

Label ar gyfer carcass

Categori V – categoreiddio priodol i oedran

03/04/08/42864/1 – cyfeirnod/ cod

Pwysau: xx cilogram

Tarddiad: y DU

Lladdwyd yn: y DU (1234)

Label arddangos

Hambwrdd: Hambyrddau gwyrdd	Cyfeirnod/ cod: MB 535 WB 14/06/07 (<i>enghraifft yn unig</i>)
Tarddiad: y DU* - Prydeinig	Lladdwyd yn: y DU Rhif trwydded y lladd-dy: 1234
Torrwyd yn: y DU Rhif trwydded y ffatri dorri: 2345	Cig llo. 'oedran lladd: hyd at 8 mis'

(*Ile cafodd yr anifail ei eni, ei fagu a'i ladd yn y DU)

Label ar gyfer carcass

Categori Z – categoreiddio priodol i oedran
03/04/08/42864/1 – cyfeirnod/ cod
Dosbarthiad: CR3L (lladd-dai Siambr Fasnach Prydain)
Pwysau: xxx cilogram
Tarddiad: y DU
Lladdwyd yn: y DU (1234)

Label arddangos

Hambwrdd: Hambyrddau gwyrdd	Cyfeirnod/ cod: MB 535 WB 14/06/07 (<i>enghraifft yn unig</i>)
Tarddiad: y DU* - Prydeinig	Lladdwyd yn: y DU Rhif trwydded y lladd-dy: 1234
Torrwyd yn: y DU Rhif trwydded y ffatri dorri: 2345	Cig eidion. 'oedran lladd: 8-12 mis'

(*Ile cafodd yr anifail ei eni, ei fagu a'i ladd yn y DU)

Atodiad 4

Gwybodaeth i gwsmeriaid am labelu cig eidion

Mae gweithdrefnau gorfodol ar gyfer labelu cig eidion a chig llo yn eich hysbysu am darddiad y cig eidion rydych yn ei brynu ac yn darparu cyfeirnodau neu godau fel y gallwch olrhain y cig yn ôl i'w darddiad.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i labeli gynnwys gwybodaeth am y gwledydd yn yr UE lle cafodd yr anifail ei eni a'i fagu ac a yw'r cig eidion wedi ei fewnforio i'r UE. Mae'n rhaid iddynt hefyd nodi lle cafodd yr anifail ei ladd a lle y gwnaed y gwaith torri.

Mae'n rhaid cymeradwyo pob honiad arall ar label sy'n ymwneud â tharddiad rhanbarthol a lleol, y math o gig eidion ydyw a dull cynhyrchu'r cig eidion sydd ar werth ac mae'n rhaid gallu olrhain pob honiad.

Atodiad 5

Diffiniad o dermau

At ddiben Rheoliad 1760/2000, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

- (a) “briwgig”: unrhyw gig sydd wedi'i friwio'n dameidiau neu sydd wedi bod trwy friwell droellog, ac sy'n amodol ar un o'r codau CN y cyfeirir atynt yn Erthygl 12 o Reoliad (CE) Rhif 1760/2000 ac sy'n cynnwys llai nag 1 y cant o halen;
- (b) “tocion”: darnau bach o gig sy'n ddiogel i bobl eu bwyta a gynhyrchwyd yn ystod y gwaith tocio wrth dynnu esgyrn carcasau a/neu dorri cig;
- (c) “cig wedi'i dorri”: cig sydd wedi'i dorri'n giwbiau, yn sleisiau neu'n ddarnau bach eraill fel nad oes angen i weithredwr ei dorri ymhellach cyn ei werthu i'r defnyddiwr terfynol, a gall y defnyddiwr hwnnw ei ddefnyddio'n syth. Nid yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i friwgig na thocion;
- (d) “cig wedi'i dorri sydd wedi'i ragbecynnu”: cig a gynigir mewn pecyn heb ei addasu i'r defnyddiwr terfynol neu sefydliad manwerthu, sy'n cynnwys cig wedi'i dorri a'r deunydd pecynnu y cafodd ei becynnu ynddo cyn iddo gael ei gynnig i'w werthu, waeth a yw'r deunydd pecynnu'n gorchuddio'r cig yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ond na ellir addasu'r cynnwys heb agor neu newid y deunydd pecynnu;
- (e) “cig wedi'i dorri heb ei ragbecynnu”: cig wedi'i dorri sydd ar ddangos heb ei ragbecynnu mewn siopau i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol a phob darn o gig sydd ar ddangos heb ei ragbecynnu mewn siopau i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol, y bwriedir ei dorri ar gais y defnyddiwr terfynol;
- (f) “batsh”: cig, ar yr asgwrn neu wedi'i ddiesgyrnu, er enghraifft, carcasau, chwarthorion neu ddarnau o gig wedi'u diesgyrnu, eu torri, eu briwio neu eu pecynnu gyda'i gilydd o dan yr un amodau;
- (g) “manwerthu”: y broses o drafod a/neu brosesu cig a'i storio yn y man gwerthu neu ei ddarparu i'r defnyddiwr terfynol, gan gynnwys arlwywyr, ffreuturau cwmnïau, arlwywyr sefydliad, bwytaï a chwmnïau gwasanaethau bwyd tebyg, siopau, canolfannau dosbarthu i archfarchnadoedd a siopau cyfanwerthu;
- (h) “defnyddiwr terfynol”: defnyddiwr terfynol cig wedi'i dorri nad yw'n ei ddefnyddio fel rhan o waith neu weithgarwch busnes bwyd.

Atodiad 6

Deddfwriaeth

Rheoliad (CE) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor 17 Gorffennaf 2000 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97

Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1825/2000 25 Awst 2000 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwysu Rheoliad (CE) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion

Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 275/2007 15 Mawrth 2007 sy'n diwygio Rheoliad (CE) 1825/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwysu Rheoliad (CE) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion

Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1234/2007 22 Hydref 2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (Rheoliad Sengl CMO)

Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 361/2008 14 Awst 2008 sy'n diwygio Rheoliad (CE) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (Rheoliad Sengl CMO)

Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 566/2008 18 Mehefin 2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwysu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1234/2007 ynghylch marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau

Offeryn Statudol 2001 Rhif 1360 (W. 88) Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001

Offeryn Statudol Drafft 2011 Rhif xx (W. xx) Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo 2011